Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Cyflwyniad ac arweiniad

Hydref 2018

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Cynnwys

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

@Gofcymdeithasol

© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu medrus ar gyfer y maes gofal plant a chwarae plant, a sicrhau ei fod yn broffesiwn uchel ei barch ac yn yrfa o ddewis, a bod y sector yn cael ei gydnabod am ei rôl bwysig wrth gynorthwyo gyda datblygiad ein plant.

Fel rhan o'r cymorth ehangach ar gyfer hyfforddiant, mae *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Rhagfyr 2017*[1] Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob lleoliad blynyddoedd cynnar ddarparu proses sefydlu ar gyfer pob gweithiwr newydd er mwyn eu helpu i ddeall pwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant a'r gwerthoedd sy'n sail i waith y blynyddoedd cynnar.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu'r fframwaith sefydlu i Gymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn cefnogi proses sefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sector. Bydd y fframwaith hwn yn rhoi strwythur cadarn i leoliadau ar gyfer y broses sefydlu, a bydd yn sicrhau bod gweithwyr newydd yn glir ynghylch y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen iddyn nhw ddangos tystiolaeth ohonynt yn ystod eu chwe mis cyntaf o gyflogaeth.

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd proses sefydlu wedi'i chynllunio'n a'i pharatoi'n ofalus, a'r effaith gadarnhaol y mae'r broses yn ei chael ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae proses sefydlu dda yn sicrhau bod gweithwyr yn deall pwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant a'r gwerthoedd sy'n sail i'r gwaith yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd proses sefydlu sydd wedi'i strwythuro'n dda yn helpu gweithwyr i setlo a'u gwneud yn fwy effeithiol yn eu rôl. Gall gynyddu ymroddiad gweithwyr cyflogedig a'u bodlonrwydd yn eu swydd.

Mae *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* (y fframwaith sefydlu) yn creu sylfaen gadarn ar gyfer gweithwyr newydd fel y gallant ddatblygu eu hymarfer a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, ac ar draws sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'n rhoi meincnod clir hefyd i gyflogwyr o'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd proffesiynol sydd angen iddyn nhw ddangos tystiolaeth ohonynt er mwyn sicrhau bod gweithwyr cyflogedig newydd yn ddiogel a chymwys i ymarfer yn y cam hwn o'u datblygiad.

Mae'r fframwaith sefydlu yn darparu sicrwydd bod pob gweithiwr newydd yn cael y dysgu a'r cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod cyfnod cyntaf eu cyflogaeth. Gall hyn gyfrannu hefyd tuag at gyflawni CCPLD Lefel 2 a 3.

Ar gyfer y rhai nad ydynt mewn rôl gyflogedig (er enghraifft, gwarchodwyr plant cofrestredig), mae'r fframwaith sefydlu'n ddefnyddiol i'w helpu i hunan-fyfyrio wrth ymuno â'r sector neu ar ôl newid swydd.

At ddibenion y ddogfen hon, defnyddir y termau "gweithiwr" a "rheolwr" er cysondeb ac er mwyn gwneud y canllawiau'n haws eu dilyn. Ar gyfer gwarchodwr plant cofrestredig, dylid nodi y gallai'r canllawiau ar gyfer gweithiwr a rheolwr fod yn berthnasol iddynt gan ddibynnu ar eu rôl yn y sector a gellir ei ddefnyddio i'w helpu i hunan-fyfyrio.

At hynny, ar gyfer y rhai mewn rôl gyflogedig sy'n rheolwyr llinell neu'n goruchwylio staff mewn lleoliad blynyddoedd cynnar neu ofal plant ond sydd hefyd â rheolwr llinell eu hunain, bydd y canllawiau ar gyfer gweithiwr a rheolwr yn berthnasol oherwydd y byddant yn cael eu hystyried yn "weithiwr" a "rheolwr" yn y canllawiau hyn mewn gwahanol sefyllfaoedd.

1 Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Rhagfyr 2017 Llywodraeth Cymru

Cefndir a statws cyfredol

Cyhoeddwyd y *Fframwaith sefydlu i Gymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* am y tro cyntaf yn 2011. Roedd y fframwaith yn nodi'r canlyniadau dysgu y dylai'r gweithwyr sy'n ymuno â'r sector, sefydliad newydd neu sy'n newydd i'r rôl, eu cyrraedd yn ystod 12 wythnos gyntaf y gyflogaeth.

Mae'r fframwaith sefydlu newydd hwn ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn darparu strwythur er mwyn deall y broses sefydlu'n well, ac mae'n amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd angen ar weithwyr newydd yn ystod **chwe mis** cyntaf y gyflogaeth. Mae teitl y fframwaith sefydlu wedi'i newid hefyd i **Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant.**

Yn dilyn yr adolygiad o gymwysterau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant gan Cymwysterau Cymru yn 2016, mae ystod newydd o gymwysterau wedi'u datblygu. Bydd y fframwaith sefydlu diwygiedig yn cyd-fynd â chynnwys craidd y cymwysterau newydd ar lefel 2 a 3.

Cynnwys

Adran 1: Canllawiau ar gyfer rheolwyr 6

Pam defnyddio *Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant?* . 6

Beth mae *Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* yn ei gynnwys? 6

Pwy ddylai gwblhau *Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant?* 6

Gweithwyr sy'n ymuno â sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant o'r newydd 7

Gweithwyr sy'n ymuno â sefydliad neu leoliad o'r newydd 7

Gweithwyr sy'n gwneud rôl newydd 8

Gweithwyr sydd â phrofiad blaenorol mewn sector gwahanol 8

Gweithwyr sy'n dychwelyd ar ôl seibiant gyrfa 8

Aelodau staff cyfredol fel ffordd o gynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol parhaus 8

Sut mae *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* yn gysylltiedig â chymwysterau? 8

Gweithlyfrau 9

Cynorthwyo gweithwyr i ddysgu 10

Adran 2: Canllawiau ar gyfer gweithwyr 11

Beth yw diben y broses sefydlu 11

Cychwyn arni. 12

Cynorthwyo gyda'ch proses sefydlu a'i monitro 12

Gweithlyfrau 13

Adran 3: Y fframwaith 14

Adran 1: Canllawiau ar gyfer rheolwyr

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am weithwyr yn ystod eu cyfnod sefydlu.

Mae'r term rheolwr a ddefnyddir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am y gweithiwr yn ystod ei gyfnod sefydlu.

Pam defnyddio *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant?*

Mae'r fframwaith sefydlu yn adnodd i reolwyr asesu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff newydd, a bydd yn eich helpu i nodi, cofnodi a chynllunio ar gyfer anghenion datblygu.

Rydym yn disgwyl y bydd yn cymryd chwe mis i gwblhau'r fframwaith sefydlu cyfan. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod yna amgylchiadau eithriadol pan fo angen amser ychwanegol. Ni ddylid cymeradwyo'r fframwaith sefydlu tan y bydd yr holl ganlyniadau wedi'u cyflawni.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gan y gweithiwr ddigon o amser a chefnogaeth i gwblhau'r fframwaith sefydlu.

Beth mae *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* yn ei gynnwys?

Mae'r fframwaith sefydlu'n cynnwys pum rhan sy'n cyd-fynd â'r cymhwyster craidd:

- Adran 1 – Egwyddorion a gwerthoedd
- Adran 2 – Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
- Adran 3 – Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Adran 4 – Diogelu plant
- Adran 5 – Iechyd a diogelwch ym maes gofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant

Mae pob adran:

- yn nodi egwyddorion a gwerthoedd y blynyddoedd cynnar a gofal plant y mae gweithwyr angen eu dangos.
- yn nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gweithwyr newydd angen dangos tystiolaeth ohonynt yn ystod eu cyfnod sefydlu.

Pwy ddylai gwblhau *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant?*

Gellir defnyddio'r fframwaith sefydlu fel sail i ddatblygu neu wella'r broses sefydlu yn eich gweithle.

Ymhellach, un o ofynion **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer Plant hyd at 12 oed – Llywodraeth Cymru Ebrill 2016** yw y dylai pob gweithiwr dderbyn hyfforddiant sefydlu, sy'n cynnwys iechyd a diogelwch, a pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, yn ystod eu hwythnos gyntaf o gyflogaeth.

Mae'r fframwaith sefydlu hwn yn eich helpu chi fel rheolwr i ddarparu proses sefydlu effeithiol drwy:

- ddarparu fframwaith y gallwch ei ddefnyddio fel sail i'r broses sefydlu neu er mwyn llywio rhaglen sefydlu eich lleoliad
- darparu prosesau ac adnoddau clir i asesu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad eich gweithwyr, a nodi eu cryfderau a'u hanghenion datblygu
- eich helpu i nodi a darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu er mwyn galluogi eich gweithwyr i wneud eu swydd yn effeithiol a diogel
- sicrhau bod pob proses sefydlu ar draws y sector yn debyg o ran eu natur, gan ddarparu meincnod.

Mae'r fframwaith sefydlu'n helpu gweithwyr newydd drwy:

- nodi'n glir yr hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt
- rhoi cyfle i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymarfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant; yn benodol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r holl ofal a chymorth
- darparu cymorth ar gyfer rolau a chyfrifoldebau newydd sy'n newid drwy'r amser
- creu tystiolaeth y gellir ei defnyddio tuag at ennill y cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer
- darparu tystiolaeth o wybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy ar draws y sector.

Waeth ydynt yn cael eu cyflogi'n llawn amser, yn rhan-amser, yn sesiynol neu'n wirfoddolwr, dylid sicrhau bod y fframwaith sefydlu'n cael ei gwblhau gan unrhyw weithiwr:

- sy'n ymuno â sector y blynyddoedd cynnar o'r newydd
- sy'n ymuno â sefydliad o'r newydd
- sy'n gwneud rôl newydd
- sydd â phrofiad blaenorol mewn sector gwahanol
- sy'n dychwelyd ar ôl seibiant gyrfa
- sy'n aelod staff cyfredol, fel ffordd o gynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol parhaus.

Gweithwyr sy'n ymuno â sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant o'r newydd

Dylai gweithwyr sy'n ymuno â sector y blynyddoedd cynnar o'r newydd gyflawni a chwblhau dysgu wedi'i gynllunio, a chael eu hasesu ar bob un o bum canlyniad dysgu'r fframwaith sefydlu.

Gweithwyr sy'n ymuno â sefydliad neu leoliad o'r newydd

Efallai nad yw gweithwyr sy'n ymuno â'r sefydliad neu'r lleoliad o'r newydd angen cwblhau'r fframwaith sefydlu i gyd. Gall tystiolaeth o gyflawni'n llwyddiannus gymhwyster perthnasol a/neu raglen sefydlu fod yn "basbort" ac mae'n rhoi hyder i reolwyr bod rhai meysydd sefydlu sy'n gyffredin i bob gweithle wedi cael sylw eisoes.

Gweithwyr sy'n gwneud rôl newydd

Mae'n ymarfer da i ystyried anghenion dysgu **pob** gweithiwr. Bydd gweithwyr sydd wedi cwblhau sesiwn sefydlu a/neu sydd eisoes â chymwysterau perthnasol yn cael budd o'r cyfle i loywi eu dysgu a sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol.

Gweithwyr sydd â phrofiad blaenorol mewn sector gwahanol

Mae'n bwysig bod y gweithwyr hyn yn cwblhau'r canlyniadau dysgu sy'n benodol i'r lleoliad y maen nhw'n gweithio ynddo a hwyrach y gallant ddangos tystiolaeth o wybodaeth drosglwyddadwy.

Gweithwyr sy'n dychwelyd ar ôl seibiant gyrfa

Mae'n bwysig bod gweithwyr sy'n dychwelyd i'r sector yn dilyn seibiant gyrfa, fel absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch tymor hir, yn myfyrio, ac yn cael cyfle i ddychwelyd at unrhyw ganlyniadau dysgu a nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth.

Aelodau staff cyfredol fel ffordd o gynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Gall fod yn fanteisiol defnyddio'r fframwaith sefydlu fel adnodd ar gyfer staff presennol mewn perthynas â'u DPP.

Fel rheolwr, gallwch ddefnyddio'r fframwaith sefydlu i gadarnhau pa ganlyniadau dysgu y mae'r gweithiwr eisoes wedi'u bodloni a dangos tystiolaeth ohonynt. Gallwch gofnodi a chymeradwyo'r dystiolaeth hon yn y gweithlyfr.

Mae yna adran yn y **gweithlyfr** (asesiad cofnodi) lle gallwch gofnodi a chymeradwyo'r dystiolaeth hon. Os nad oes gan y gweithiwr gymhwyster perthnasol sy'n cynnwys yn uniongyrchol y meysydd a nodir ar gyfer sefydlu, dylech ystyried pa mor berthnasol yw profiad y gweithiwr yn y gorffennol. Bydd angen i weithwyr sydd newydd ymuno â'r lleoliad fodloni'r canlyniadau dysgu sy'n benodol i'r gweithle – er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithio neu leoliadau ar gyfer gwasanaeth penodol.

Sut mae *Fframwaith sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant* yn gysylltiedig â chymwysterau?

Cysylltiadau â chymwysterau newydd o fis Medi 2019

O fis Medi 2019, bydd y cymwysterau "craidd" lefel 2 a 3 yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol y fframwaith sefydlu. Bydd elfennau ymarfer y fframwaith sefydlu hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y cymwysterau ymarfer ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y bydd gweithwyr newydd sy'n gwneud y fframwaith sefydlu yn creu tystiolaeth y gellir ei defnyddio tuag at gyflawni'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ymarfer.

Gweithlyfrau

Er mwyn helpu i roi'r fframwaith sefydlu ar waith ac er mwyn helpu gweithwyr newydd i greu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn ennill y cymhwyster "craidd", mae gweithlyfrau wedi'u datblygu ar gyfer pob rhan o'r fframwaith.

Mae'r gweithlyfrau'n cynnwys sampl o gwestiynau a chanllawiau. Fel rheolwr, efallai y byddwch am newid, defnyddio dulliau arbrofol o ddysgu neu ychwanegu atynt er mwyn adlewyrchu'r rhan o'r sector yr ydych yn gweithio ynddo.

Nid yw'r gweithlyfrau'n ofyniad gorfodol, ond y gobaith yw y byddant yn adnodd defnyddiol i chi fel rheolwyr a byddem yn argymell yn gryf eich bod yn eu defnyddio.

Bydd cwblhau'r gweithlyfrau yn rhoi tystiolaeth i rheoleiddwyr y gwasanaeth eich bod yn dilyn prosesau sefydlu cadarn, a bydd yn dystiolaeth ategol hefyd y gall gweithwyr ei defnyddio ar gyfer ennill eu cymwysterau.

Defnyddio'r gweithlyfrau

Cafodd y gweithlyfrau eu cynllunio fel y gellir eu defnyddio fel adnodd sy'n seiliedig ar y we, ond gellir eu hargraffu a'u llenwi hefyd.

Bydd angen i chi sicrhau bod gan eich gweithwyr fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngrwyd er mwyn defnyddio'r fersiwn o'r fframwaith sefydlu ar y we.

Gall gweithwyr gofnodi eu dysgu wrth fynd rhagddi, a gallwch chi fel eu rheolwr, gofnodi eich adborth. Cofiwch gofnodi unrhyw ddysgu ychwanegol fel y gellir ei ddefnyddio tuag at gymwysterau.

Mae yna eirfa sy'n cynnwys yr holl weithlyfrau ac mae'n rhoi diffiniad o'r termau a ddefnyddiwyd. Mae yna rywfaint o ddolenni a chyfeiriadau ar ddiwedd y ddogfen hefyd a all fod yn ddefnyddiol i'r gweithiwr. Wrth i'r gweithiwr fynd drwy weithgareddau dysgu'r gweithlyfr, bydd angen i chi eu cyfarfod er mwyn gweld pa hwyl y maen nhw'n ei gael, cwblhau'r log cynnydd a rhoi cymorth os oes angen.

Mae'n bwysig bod y gweithiwr yn cadw'r dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy gwblhau'r gweithlyfrau a'ch bod chi fel rheolwr yn cadw copi yn ffeiliau'r staff. Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon tuag at ennill y cymwysterau y byddant eu hangen ar gyfer ymarfer, gan osgoi unrhyw achos o ddyblygu'r dysgu. Gall cyrff rheoleiddio fod am eu samplu hefyd er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses sefydlu yr ydych yn ei darparu yn gadarn ac yn bodloni gofynion rheoleiddio.

Cynorthwyo gweithwyr i ddysgu

Mae pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Cyn belled â bod y gweithiwr yn bodloni'r canlyniadau dysgu a nodir yn y fframwaith sefydlu, mae croeso i chi ddefnyddio cymysgedd o ddulliau a fydd yn diwallu anghenion y gweithiwr yn y ffordd orau.

Gall y dulliau hyn gynnwys:

- mentora gan gydweithiwr mwy profiadol
- hyfforddi
- dysgu o bell
- e-ddysgu
- darllen dan arweiniad
- defnyddio goruchwylio mewn ffordd strwythuredig
- cysgodi
- rhaglenni /hyfforddiant a addysgir
- gwaith grŵp
- profiad ymarferol
- ymarfer myfyriol.

Mae angen i weithwyr ddangos eu bod wedi bodloni canlyniadau dysgu'r fframwaith sefydlu. Mae'r log cynnydd yn adnodd defnyddio y dylent ei defnyddio i gofnodi ac olrhain eu llwyddiannau.

Mae yna amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i fesur dealltwriaeth gweithwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau, a'u hymarfer, gan gynnwys:

- cwblhau'r gweithlyfrau
- holi ar lafar
- arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol
- adborth gan eraill – fel unigolion, gweithwyr eraill
- hunanasesu / disgrifiadau myfyriol
- tystiolaeth o hyfforddiant / cymwysterau achrededig.

Adran 2: Canllawiau ar gyfer gweithwyr

Beth yw diben y broses sefydlu?

Os ydych yn ymuno â'r sector o'r newydd, neu mewn swydd newydd, gall y diwrnodau a'r wythnosau cyntaf fod yn gyffrous a llawn gwybodaeth. Bydd proses sefydlu yn eich helpu i:

- ddeall eich rôl – yr hyn sy'n ofynnol gennych a'r cymorth y gallwch ei ddisgwyl
- ymgyfarwyddo â'ch amgylchedd gweithio a'r wybodaeth bwysig sydd ei hangen arnoch i wneud eich swydd yn dda
- datblygu cysylltiadau gwaith da
- deall y ffordd orau y gallwch gefnogi plant a theuluoedd.

Mae'r broses sefydlu yn rhan bwysig o'ch datblygiad proffesiynol. Bydd cwblhau'r fframwaith sefydlu yn eich helpu i ennill, datblygu a chryfhau'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol i'ch rôl, ac ar gyfer ymarfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gyffredinol. Mae'n sail i'ch dysgu a'ch datblygiad yn y dyfodol, ac mae'n dangos y cynnydd yr ydych wedi'i wneud hyd yma.

Bydd eich rheolwr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer eich proses sefydlu. Gall hyn olygu cael mentor neu "fydi" a fydd yn gydweithiwr neu'n gymheiriad mwy profiadol er mwyn eich cynorthwyo gyda'ch dysgu. Bydd **goruchwylio** rheolaidd yn golygu y gallwch fyfyrio ar yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu a byddwch yn cael adborth ar eich cynnydd.

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan weithredol yn eich proses sefydlu er mwyn manteisio ar y profiad dysgu hwn. Mae gofyn cwestiynau yn eich helpu i wirio eich dealltwriaeth a bydd yn eich helpu i ddysgu.

Gan fod y fframwaith hwn wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio ar draws sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant, bydd angen i'ch rheolwr gynnwys dysgu sy'n benodol i'ch sefydliad a'ch gweithle. Os ydych yn newid swyddi yn eich lleoliad neu'r sector ehangach, bydd yn bwysig adolygu'r adrannau yr ydych wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eich rôl newydd.

Mae yna bum adran yn y fframwaith sefydlu:

- Adran 1 – Egwyddorion a gwerthoedd
- Adran 2 – Iechyd, llesiant, dysgu, datblygiad a chwarae
- Adran 3 – Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Adran 4 – Diogelu plant
- Adran 5 – Iechyd a diogelwch ym maes gofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant

Mae pob adran:

- yn nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen yn ystod chwe mis cyntaf eich rôl
- yn nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sydd angen i chi eu deall a'u dangos yn eich gwaith eich hun.

Rydym yn rhagweld y bydd yn cymryd chwe mis i chi gwblhau'r fframwaith sefydlu cyfan. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod yna amgylchiadau eithriadol pan fo angen amser ychwanegol. Dylid cymeradwyo'r fframwaith sefydlu dim ond pan fo'r holl ganlyniadau wedi'u cyflawni.

Cychwyn arni

Mae pob adran o'r fframwaith sefydlu'n cynnwys nifer o benawdau. Dan bob pennawd, byddwch yn darganfod gwybodaeth graidd am y canlyniadau dysgu a fydd yn cael sylw yn ystod eich proses sefydlu.

Mae pobl yn dysgu mewn sawl ffordd wahanol. Cyn belled â bod y canlyniadau dysgu yn cael eu bodloni, gallwch drafod â'ch rheolwr y dulliau sy'n gweddu orau i'ch anghenion chi. Gallai'r dulliau hyn gynnwys:

- mynychu hyfforddiant neu wneud e-ddysgu
- darllen dan arweiniad
- trafodaeth un-i-un, er enghraifft, dan oruchwyliaeth
- arsylwi ar aelodau staff eraill
- cael mentor
- cyfarfodydd tîm
- hunan-fyfyrio.

Gellir defnyddio'r canlyniadau dysgu hyn er mwyn dangos eich bod yn deall, ac yn gallu rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu am bwnc penodol ar waith. Efallai y gofynnir i chi ddangos yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy:

- ateb cwestiynau, yn ysgrifenedig neu ar lafar
- cael eich arsylwi yn y gwaith
- myfyrio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'r ffordd y gallwch wella eich ymarfer ymhellach.

Gellir defnyddio unrhyw dystiolaeth a gasglwyd wrth gwblhau eich fframwaith sefydlu ar gyfer ennill cymwysterau yn y dyfodol ar gyfer eich rôl. Mae'n bwysig ei chadw'n ddiogel gan y bydd yn dystiolaeth o'ch dysgu ar gyfer eich cyflogwr, eich rheoleiddwyr gwasanaethau a'ch cyflogwyr eraill pe byddech yn newid swyddi yn y dyfodol.

Mae gan eich rheolwr gyfrifoldeb i sicrhau bod gennych ddigon o amser a chymorth i gwblhau'r fframwaith sefydlu.

Dylech ddangos yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy gwblhau a diweddaru'r log cynnydd ar gyfer pob adran, yn rheolaidd. Bydd y log cynnydd yn eich helpu chi a'ch rheolwr i gofnodi eich dysgu a'r canlyniadau dysgu yr ydych wedi'u cyflawni.

Cynorthwyo gyda'ch proses sefydlu a'i monitro

Bydd eich rheolwr yn cynorthwyo gyda'ch cynnydd ac yn ei fonitro gydol y cyfnod sefydlu er mwyn sicrhau eich bod yn deall ac yn gallu defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu wrth ymarfer.

Disgwylir i'ch rheolwr wneud y canlynol:

- dod i gytundeb â chi ynghylch ffordd o'ch cynorthwyo a'ch monitro a chynllunio hynny gyda chi – gan gysylltu â phroses brawf eich sefydliad os oes ganddynt broses o'r fath
- rhoi arweiniad i chi o ran casglu tystiolaeth am yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'r ffordd y caiff ei gofnodi
- eich cyfarfod yn rheolaidd gydol eich proses sefydlu er mwyn sicrhau eich bod yn cael adborth, arweiniad a chymorth
- eich helpu i gwblhau'r log cynnydd sy'n cofnodi'r canlyniadau dysgu yr ydych wedi'u cyflawni.

Enghraifft o log cynnydd:

Gweithgarwch a wnaethpwyd	Tystiwyd gan bwy ac adborth	Llofnodion a dyddiad
Cofnod o weithgarwch a gwblhawyd i ddangos bod y gweithiwr wedi bodloni'r canlyniad dysgu. Os oes gan y gweithiwr eisoes dystiolaeth o ddysgu neu sgiliau blaenorol sy'n cynnwys y canlyniadau dysgu, dylid cofnodi'r rhain yn y golofn hon. Gall hyn gynnwys tystysgrifau/ cymwysterau. Er enghraifft, mynychu gweithdy neu gyfarfodydd, neu gysgodi cydweithwyr neu gymheiriaid.	Gall rheolwr, goruchwyliwr neu aelod staff priodol gwblhau hwn. Os oes gan y gweithiwr eisoes dystiolaeth briodol o ddysgu blaenorol, nodwch yma deitl y dystysgrif/ cymhwyster, enw'r sefydliad dyfarnu a'r dyddiad y gwnaeth y gweithiwr ennill y dyfarniad.	Dylai'r rheolwr a'r gweithiwr lofnodi yma a nodi'r dyddiad er mwyn cadarnhau bod y canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni'n llwyddiannus neu i gadarnhau eu bod wedi gweld a derbyn unrhyw dystysgrif/ gymhwyster fel tystiolaeth o ddysgu blaenorol. Cyfrifoldeb y rheolwr bob amser yw llofnodi ei fod wedi gweld tystiolaeth ganlyniadau dysgu yn cael eu cyflawni.

Gweithlyfrau

Mae cyfres o bump o weithlyfrau wedi'u datblygu i'ch helpu gyda'ch dysgu. Mae pob gweithlyfr yn cynnwys "gwybodaeth graidd" a'r canlyniadau ychwanegol ar gyfer dysgu ymarfer sy'n dangos y ffordd rydych yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn eich gwaith – os ydych yn gyflogedig, mae angen i hyn fod yng nghyd-destun eich rôl.

Gellir cwblhau'r wybodaeth graidd naill ai cyn i chi ddechrau gweithio (cyn-gyflogaeth) neu pan fyddwch yn cychwyn eich rôl newydd. Os ydych yn gyflogedig, mae angen cwblhau'r fframwaith sefydlu cyfan o fewn chwe mis o'ch dyddiad cychwyn.

Mae'r gweithlyfrau'n defnyddio dulliau dysgu ac asesu amrywiol. Dylid eu defnyddio fel adnodd ar-lein sy'n seiliedig ar y we, ac maen nhw ar gael fel dogfen PDF y gellir ei golygu ac fel fersiwn word syml.

Bydd angen i chi sicrhau bod gennych fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngrwyd i ddefnyddio'r fersiwn o'r fframwaith sefydlu sy'n seiliedig ar y we.

Mae gan y gweithlyfr le i chi gofnodi eich dysgu wrth i chi fynd ymlaen a gall eich rheolwr gofnodi ei adborth. Efallai bod eich rheolwr neu eich cyflogwr am ddefnyddio gweithgareddau dysgu neu astudiaethau achos eraill yn ychwanegol at y rhai yn y gweithlyfr hwn. Cofiwch gofnodi unrhyw ddysgu ychwanegol fel y gellir ei ddefnyddio tuag at eich cymhwyster.

Os ydych yn cwblhau'r gweithlyfr hwn cyn i chi ddechrau gweithio, bydd yna rai cwestiynau na allwch eu hateb eto. Gallwch eu cwblhau pan fyddwch yn dechrau eich rôl newydd.

Mae yna eirfa sy'n berthnasol ar gyfer yr holl weithlyfrau ac sy'n rhoi rhai diffiniadau o'r termau a ddefnyddiwyd, bydd unrhyw beth sydd wedi'i farcio mewn **print trwm** yn cael ei gynnwys yma. Mae yna rai dolenni a chyfeiriadau ar ddiwedd y ddogfen a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Gan eich bod yn gweithio drwy weithgareddau dysgu'r gweithlyfr, bydd eich rheolwr yn eich cyfarfod i weld sut hwyl yr ydych yn ei gael ac i drafod unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol sydd eu hangen arnoch. Byddant yn cwblhau'r log cynnydd gyda chi a'ch helpu os oes unrhyw fylchau.

Adran 3: Y fframwaith

1. Egwyddorion a gwerthoedd

Prif feysydd	Canlyniad
1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cysylltu'r egwyddorion sy'n sail i ofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant â'ch ymarfer • cynnal y codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol yn eich gwaith.
1.2 Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • sicrhau bod dull sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'ch gwaith.
1.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • parchu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth tuag at blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac eraill.
1.4 Dulliau sy'n canolbwyntio y plentyn	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • sicrhau bod dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn rhan annatod o'ch ymarfer • cefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n adlewyrchu eu dewisiadau, ac sy'n ystyrlon a difyr • deall y ddyletswydd i sicrhau bod buddiannau pennaf y plentyn yn cael blaenoriaeth a dangos hyn mewn ymarfer.
1.5 Caniatáu i blant gymryd risgiau	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • golygu bod yna gydbwysedd rhwng angen y plentyn i arbrofi a chymryd rhai risgiau â'ch dyletswydd i'w cadw'n ddiogel • defnyddio asesiadau risg yn eich lleoliad gwaith i gefnogi plant ac i gymryd risgiau er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.
1.6 Llesiant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • hyrwyddo pwysigrwydd teulu/unigolion eraill sy'n bwysig i'r plentyn, a gweithio mewn ffordd sy'n cefnogi a datblygu'r cysylltiadau hyn er budd y plentyn.

Prif feysydd	Canlyniad
1.7 Cysylltiadau cadarnhaol a ffiniau proffesiynol	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • datblygu cysylltiadau cadarnhaol yng nghyd-destun "ffiniau proffesiynol".
1.8 Cyfathrebu	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • nodi a defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol sy'n briodol i'w hoedran, galluoedd a lefel eu datblygiad er mwyn diwallu anghenion a dewisiadau'r plant yn eich gofal • cymryd camau os ydych yn gweld unrhyw ne-widiadau amlwg yn null plentyn o gyfathrebu.
1.9 Y Gymraeg a diwylliant Cymru	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cefnogi anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu ac iaith y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn eich gwaith • dangos eich bod yn cydymffurfio â deddfwria-eth a pholisïau yn eich ymarfer.
1.10 Dulliau cadarnhaol o gynorthwyo gydag ymddygiad cadarnhaol	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • sicrhau bod defnyddio dulliau cadarnhaol yn rhan annatod o'ch gwaith • dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gweithle sydd ar waith ar er mwyn cefnogi ymddygiad.
1.11 Newidiadau a phrosesau pontio ym maes gofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cefnogi'r mathau o newid a phrosesau pontio a allai godi yn ystod bywyd plentyn • ystyried y ffactorau sy'n gwneud y newidiadau a'r prosesau pontio hyn yn rhai cadarnhaol neu negyddol • cefnogi plant i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth a fydd yn eu paratoi ar gyfer newidiadau a phrosesau pontio.
1.12 Myfyrio	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • myfyrio ar y ffordd y mae eich agwedd a'ch ymddygiad yn effeithio ar y plant yr ydych yn eu cynorthwyo.

2. Iechyd, llesiant, dysgu, datblygiad a chwarae

Prif feysydd	Canlyniad
2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu, datblygiad a chwarae	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • hyrwyddo ffyrdd o weithio gyda phlant sy'n eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau amrywiol, a chynyddu eu datblygiad ar lefel sy'n briodol i'w hoedran, eu hanghenion a'u gallu • cefnogi plant mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo eu hunan-barch, eu hymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn • cefnogi plant i gydnabod a dathlu eu gallu, eu doniau a'u cyflawniadau.
2.2 Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, dysgu, datblygiad a chwarae plant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cefnogi amgylchedd cadarnhaol a diogel sy'n diwallu anghenion iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion unigol plant • cyfrannu at y broses o gynllunio a threfnu amgylchedd cadarnhaol a diogel sy'n cefnogi datblygiad plant • darparu amgylchedd diogel, gofalgar, ymatebol i blant a'u teuluoedd sy'n eu meithrin ac yn eu gwerthfawrogi.
2.3 Chwarae	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer mathau gwahanol o chwarae • addasu'r amgylchedd a'r gweithgareddau i wneud yn siŵr y gall pob plentyn gymryd rhan • diwallu anghenion a dewisiadau unigol plant.
2.4 Gofal personol plant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cynorthwyo gyda phatrymau gofal personol sy'n diwallu anghenion unigol plant • cynorthwyo gyda phatrymau gofal personol plant mewn ffordd sy'n eu trin gydag urddas a pharch, ac sy'n amddiffyn y plentyn a chi rhag niwed neu honiadau o niwed.
2.5 Rhoi meddyginiaeth	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad wrth gynorthwyo gyda'r dulliau o roi meddyginiaeth a'r defnydd o feddyginiaeth.

3. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Prif feysydd	Canlyniad
3.1 Rolau a chyfrifoldebau gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • sefydlu ethos a strwythur y sefydliad neu'r lleoliad yr ydych yn gweithio iddo a'ch rôl ynddo • ystyried ethos a strwythur sefydliadau eraill rydych yn gweithio gyda nhw a'r cysylltiadau â'ch rôl a'ch sefydliad neu leoliad • ystyried eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun, yr hyn y mae gofyn i chi ei wneud a chyfyngiadau eich rôl • defnyddio unrhyw gymorth sydd ar gael er mwyn i chi gyflawni eich rôl • hyrwyddo ymarfer da drwy adrodd ar faterion sy'n effeithio ar les a diogelwch unigolion neu eu gofalwyr, neu ymarfer nad ydynt yn ddiogel neu sy'n gwrthdaro ag ethos, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad neu'r lleoliad • dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gweithle.
3.2 Gweithio mewn partneriaeth	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cydnabod amrywiaeth a rolau gweithwyr eraill yn eich sefydliad neu leoliad, ac asiantaethau eraill y gallech fod wedi dod i gysylltiad â nhw • cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn eich gwaith gydag eraill • cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd yn yr holl gyfathrebu ag eraill • datblygu cysylltiadau gweithio da gyda gweithwyr ac unigolion proffesiynol eraill gan gynnal ffiniau proffesiynol.
3.3 Gwaith tîm	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dangos eich dealltwriaeth o strwythur, diben a chyfansoddiad eich tîm, a'r ffordd rydych yn cyfrannu at ei waith.

Prif feysydd	Canlyniad
3.4 Trin gwybodaeth	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad neu eich lleoliad ar gyfer trin gwybodaeth, gan gynnwys ei storio, ei chofnodi, cyfrinachedd a'i rhannu • cofnodi gwybodaeth ysgrifenedig gyda chywirdeb, eglurder, perthnasedd a lefel briodol o fanylder mewn dull amserol.
3.5 Ymddygiad personol gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cynnal proffesiwn y blynyddoedd cynnar a gofal plant, a chael esiamplau ac arferion gorau yn eich gwaith.
3.6 Datblygiad proffesiynol parhaus	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • bodloni gofynion rheoleiddio a/neu'r gweithle ynghylch dysgu a datblygiad yn eich rôl • mynd ati i nodi eich anghenion dysgu a chymorth eich hun, a chydweithio â'ch rheolwr i ddatblygu a dilyn cynllun datblygu personol er mwyn eu diwallu • mynd ati i baratoi ar gyfer prosesau goruchwylio ac arfarnu a chyfrannu atynt • myfyrio ar eich ymarfer er mwyn cynorthwyo gyda'ch datblygiad proffesiynol • datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion eich rôl.

4. Diogelu plant

Prif feysydd	Canlyniadau
4.1 Fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer diogelu	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn polisïau a gweithdrefnau lleol a pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle ar gyfer diogelu unigolion • cofnodi ac adrodd unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau.
4.2 Diogelu plant rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dangos arferion sy'n canolbwyntio ar blant yn eich gwaith • hyrwyddo diogelwch unigolion a helpu gyda'r gwaith
4.3 Ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a all arwain neu gyfrannu at niwed, cam-drin neu esgeulustod	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • hyrwyddo arferion diogel, a lleihau'r risgiau o niwed, cam-drin neu esgeulustod i blant.
4.4 Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau eich gweithle ar gyfer cofnodi ac adrodd pryderon • dilyn polisïau a gweithdrefnau eich gweithle er mwyn cofnodi eich pryderon gyda chywirdeb, eglurder, perthnasedd a lefel briodol o fanylder mewn dull amserol.

5. Iechyd a diogelwch ym maes gofal, dysgu, datblygiad a chwarae plant

Prif feysydd	Canlyniadau
5.1 Iechyd a diogelwch yn y gweithle	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • bodloni eich cyfrifoldebau'n unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch • cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer iechyd a diogelwch • dilyn prosesau eich gweithle ar gyfer cofnodi ac adrodd unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
5.2 Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cydymffurfio ag asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer eich gweithle, a gweithdrefnau ar gyfer adrodd pryderon neu ddigwyddiadau.
5.3 Diogelwch tân	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cydymffurfio â'r gweithdrefnau sy'n rhaid eu dilyn yn eich gweithle petai achos o dân.
5.4 Symud a thrin, a symud a gosod	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • golygu symud a gosod, a/neu symud a thrin, yn unol â'ch hyfforddiant/rôl ac yn unol â chynlluniau gofal a chymorth unigol.
5.5 Rheoli anaf pediatrig (gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig)	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • golygu eich bod yn mynychu cwrs cymorth cyntaf pediatrig ac ennill tystysgrif ynddo, a'ch bod yn gwybod pryd y mae'n briodol i roi cymorth cyntaf a phryd mae angen gofyn am gymorth meddygol.
5.6 Atal a rheoli heintiau	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn arferion hylendid da • gweithredu polisïau a gweithdrefnau eich gweithle ar gyfer atal a rheoli heintiau • dilyn techneg ar gyfer ymolchi'r dwylo a ddefnyddir i atal heintiau rhag ymledu.
5.7 Diogelwch bwyd	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad mewn perthynas â bwyd.

Prif feysydd	Canlyniadau
5.8 Sylweddau peryglus	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • dilyn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol ac ar gyfer y gweithle ar gyfer storio, defnyddio a gwaredu sylweddau peryglus.
5.9 Diogelwch yn y gweithle	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n: • cydymffurfio â threfniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau eich bod chi, y plant ac eraill yn ddiogel yn y gweithle • cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun, hysbysu pobl o'ch lleoliad a mynediad i'r gweithle.
5.10 Rheoli straen	Gallwch weithio mewn ffyrdd sy'n eich helpu i reoli straen drwy: • ddefnyddio eich sesiwn oruchwylio i drafod eich llesiant gyda'ch rheolwr llinell.